Gwerthusiad beirniadol a nodi'r camau addysgu a dysgu nesaf sy'n canolbwyntio ar astudiaeth achos dysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, sy'n seiliedig ar ddigwyddiad beirniadol a arsylwyd.

Cyflwyniad

Diffiniau David Tripp achosiad critigol fel

They are mostly straightforward accounts of very commonplace events that occur in routine professional practice which are critical in the rather different sense that they are indicative of underlying trends, motives and structures (Tripp, D. 1993 t.24-25).

Mi fyddai'n trafod achosiad critigol gwelais wrth arsylwi ar ddosbarth mewn ysgol gynradd Gymraeg, dros 3 diwrnod gwahanol mewn 3 wythnos wahanol. Byddaf yn trafod y plentyn dan sylw, sef Plentyn A, a'i ymddygiad a'i hymateb wrth iddi ymdopi a bywyd mewn ysgol newydd.

Mae arsylwi, beirniadu a gwerthuso achosion critigol a sut maen nhw'n cael eu trin a thrafod yn hollbwysig wrth i ni fel addysgwyr/ddarpar athrawon symud ymlaen yn ein gyrfaoedd a gwella ar yr hyn rydym yn gwneud yn barod. I gyfeirio eto at Tripp,

Reflecting on what we do is essential to the development of professional judgment, but unless our reflection involves some form of challenge to and critique of ourselves and our professional values, we tend to simply reinforce existing patterns and tendancies. (Tripp, D. 1993, t12).

Hynny yw, heb adlewyrchu ac adfyfyrio ar yr hyn yr ydyn yn gwneud, does dim modd i ni ddysgu o'n camgymeriadau a gwella, na gweld beth allwn wneud yn well, neu weld beth sydd wedi cael ei wneud yn dda yn barod.

Arsylwi

Bues i'n arsylwi ar ddosbarth derbyn mewn ysgol gynradd Gymraeg prif ffrwd o tua 200 o blant oed 3-11. Roedd 'na 32 o blant yn y dosbarth meithrin a derbyn, gydag athrawes a chynorthwyydd ddosbarth yn rhedeg y derbyn, a 2 chynorthwyydd ddosbarth yn rhedeg y dosbarth meithrin. Allan o'r 32, dim ond 2 blentyn oedd yn dod o gartrefi a theuluoedd oedd yn gallu siarad Cymraeg, felly mae'r mwyafrif yn dysgu Cymraeg o'r newydd. Y flwyddyn ysgol hon yw'r tro cyntaf bod y plant yma yn treulio diwrnodau llawn yn yr ysgol, ar ôl treulio hanner dydd (naill ai bore neu brynhawn) yn yr ysgol blwyddyn ddiwethaf. Ar hyn o bryd dim ond dosbarth meithrin bore sydd yna, gyda dosbarth yn dechrau yn y prynhawn ar ôl hanner tymor mis Hydref. Yn ôl adroddiad Estyn (2015), mae 20% o blant yr ysgol â ADY

(Anghenion Dysgu Ychwanegol), ac yn ôl Llywodraeth Cymru (2018), mae 16.9% o ddisgyblion yr ysgol yn derbyn prydau bwyd am ddim.

Yn ystod fy amser yna yn arsylwi, wnaeth 4 achos critigol fy nharo, ac oedd na phosibilrwydd sôn amdanynt am ei bod nhw gyd yn hollol wahanol gyda phlant gwahanol ac amryw o ddigwyddiadau, ond wnes i ddewis achos Plentyn A, fel soniais, fy mod i wedi gweld ei thaith a'r cynnydd da mae hi wedi gwneud mewn ychydig o amser. Cyn arsylwi a dewis achos critigol penodol, wnes i sicrhau fy mod yn darllen, deall yn iawn a dilyn canllawiau BERA (2018) ynglŷn ag anhysbysrwydd y plentyn dan sylw.

Methodoleg

Mae yna sawl ffordd wahanol o arsylwi mewn dosbarth. Y fath o arsylwi gwnes i yn briodol yn y dosbarth oedd arsylwi Ansoddol, gydag ychydig o arsylwi Meintiol. Mae arsylwi Ansoddol yn delio gyda data sydd yn cael ei arsylwi gydag ein synhwyrau- pethau allwn weld, clywed, arogli a.y.b. yn y dosbarth, ac yn cynnwys teimladau barn, a phenderfyniadau. Dydy e ddim yn cynnwys data neu mesur (Study.com, 2019). Gall hwn fod yn ffordd rhwydd i gael ymatebion i gwestiynau sydd yn fwy arwynebol neu haws ei ddatrys.
Mae asesu Meintiol yn cynnwys arsylwi gan ddefnyddio dulliau sy'n ystadegol, ac yn cynhyrchu canlyniadau cyson dros amser (Study.com, 2019)

Mae'r dyfyniad yma gan Ranjit Kumar,

You should understand that research is not all technical, complex, statistics and computers. It can be a very simple activity designed to provide answers to very simple questions relating to day-to-day activities Kumar, R. (2011 t.27)

yn cefnogi'r syniad bod arsylwi Ansoddol yn ffordd dda o ymateb cwestiynau, neu allu fod o fydd wrth arsylwi ar wersi dydd i ddydd ac i ddatrys problemau bach cyn iddyn nhw waethygu.

Wrth arsylwi, wnes i ddefnyddio dull astudiaeth achos yn canolbwyntio achosiad critigol Plentyn A yn bennaf. Ffeindiais y modd yma'n effeithiol, ac yn adlewyrchol o'm mhrofiadau i-

Case studies are down to earth and attention-holding, in harmony with the reader's own experience, and thus provide a 'natural' basis for generalization. (Cohen, Lawrence, a Morrison, 2011 t.292)

Gwelir Nisbet a Watt (1984) cryfderau a gwendidau wrth ddefnyddio astudiaeth achos. Nodir rhai cryfderau, i enwi ychydig, fel defnydd o iaith pob dydd, nad yw'n broffesiynol, mae'n realaidd ac yn adlewyrchiad o fywyd go iawn o fewn dosbarth, ac mae'n bosib dal nodweddion allai gael ei golli mewn astudiaeth a data ar raddfa'n fwy.
Nodir rhai gwendidau fel tueddiad i'r arsylwyr dangos rhagfarn, anhawster cyffredinoli heblaw os mae ymchwilwyr arall yn gweld ei arfer, a'r posibilrwydd fydd y casgliadau'n bersonol, yn ddetholus ac yn oddrychol. (Nisbet a Watt, 1984)

Wrth arsylwi ar yr achosiad critigol, wnes i ddefnyddio 'Leuven Scale' a ddatblygwyd gan Ferre Laevers. Mae'r raddfa yn ffocysu ar ddwy elfen o ddarpariaeth y cyfnod Sylfaen, sef hunan les a chyfraniad o fewn y dosbarth. Diffiniwyd hunan les fel teimlo esmwythder, bod

yn ddigymell, ac yn rhydd o densiwn emosiynol. Mae hwn yn hanfodol ar gyfer iechyd meddwl da. Mae hunan les yn cyfrannu at hyder, hunan barch a gwytnwch. Mae cyfraniad yn golygu bod yn ymgysylltiedig ac yn rhan o'r gweithgareddau yn y dosbarth, ac yn bwysig er mwyn gwella dysgu a datblygiad. (Plymouth Council, 2011)
Mae'r raddfa les yn mynd o bwynt 1 hyd at bwynt 5, sef 1 yn isel dros ben, a 5 yn uchel dros ben. Mae'r raddfa cyfraniad hefyd yn dechrau ar bwynt 1 ac yn mynd i fyny hyd at bwynt 5, sef pwynt 1 yn weithgaredd isel, a phwynt 5 yn gallu cynnal gweithgaredd. Gan ddefnyddio'r 'Leuven Scale', oedd yn haws i mi gael gafael o sut oedd hi'n teimlo a sut byddai'r teimladau yma yn effeithio ar ei datblygiad.

Tra yn y dosbarth am y tro cyntaf yn arsylwi, wnes i ddefnyddio 'tick list' Harry Fletcher-Wood, o'i lyfr 'Ticked Off' (2016). Mae hwn yn rhestr o bethau dylid ystyried wrth eistedd mewn dosbarth, sydd yn ffordd strwythurol o arsylwi Qualitative. Ffocyswyd ar beth all yr arsylwyr weld y plant yn gwneud a gweld yr athro yn gwneud, e.e. ydy'r plant wedi ffocysu ar ddysgu, sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth y dysgwr, ac oes 'na ddigwyddiad penodol a all gael ei drafod.

Pedwar pwrpas

Wrth gerdded i mewn i'r dosbarth am y tro cyntaf, roedd Plentyn A yn crio ac yn sgrechian yn dweud ei bod hi angen 'chicken stew', pan oedd hi'n mynd adref ar ôl ysgol. Siaradais yn gyntaf gyda'r Cynorthwyydd, a ddywedodd bod Plentyn A newydd ddechrau yn yr ysgol ar ol symud o ysgol arall oedd wedi cau am fod y niferoedd yn isel. Roedd y newidiadau yma a symud i'r ysgol newydd yma oedd yn fwy, gyda mwy o blant yn amlwg wedi bod yn anodd iddi. Ceisiodd yn athrawes gwneud popeth i dawelu a chysuro Plentyn A, ond doedd dim byd yn gweithio, felly rhaid iddi adael i'r plentyn siarad gyda'i mam i ddweud wrthi beth oedd hi angen i swper. Dim ond ar ôl iddi siarad gyda'i mam, wnaeth y crio taweli. Drwy gydol y diwrnod, roedd Plentyn A yn edrych fel ei bod ar fin grio, ac os oeddwn yn dal ei llygad oeddwn yn rhoi fy mawd i fyny ac oedd hi'n gwnned nol, ac oedd hwn i weld yn ei chysuro tamed.
Roedd hi'n anfodlon i ymuno ag unrhyw weithgaredd nag oedd hi angen siarad gydag unrhyw un o'r plant eraill, ond am ei 'bydi'.
Roedd hi hyd yn oed yn anfodlon bwyta yn y ffreutur gyda gweddill y plant, ac oedd hi'n anfodlon bwyta ei brechdanau, a oedd yn broblem fawr, felly oed rhaid i fam-gu Plentyn A dod i nôl hi a mynd a hi adref iddi gael bwyta- brechdanau Nutella oedd yn y bocs bwyd, a dyma'r unig beth oedd hi'n fodlon bwyta adref, hefyd.

Mae'r Athro Graham Donaldson yn awgrymu dylai fod Pedwar Diben yn y cwricwlwm newydd- dylai ddysgwyr fod yn uchelgeisiol a galluog, yn gyfranwyr mentrus a chreadigol, yn unigolion iach a hyderus, ac yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus. (Donaldson, G. 2015)
Wrth gyfarfod a Plentyn A am y tro cyntaf, roedd yn amlwg os fyddai digwyddiadau'r bore yn parhau byddai'n amhosib iddi fod yn un o'r dibenion yma, heb sôn am y 4. Roedd rhywbeth tebyg wedi digwydd pob bore o'r wythnos yna, felly mae'n annhebygol ei bod hi wedi dysgu unrhyw beth, a byddai hwn yn amharu ar ei gallu i fod yn uchelgeisiol ac yn alluog, a byddai'r plant eraill yn colli allan hefyd, gyda sylw'r athrawes i gyd â Plentyn A. Yng ngeiriau'r athrawes, 'prevention before cure' oedd ei harwyddair, felly oedd hi'n ymdrechi i 'nip it in the bud' fel petai, i sicrhau oedd ei phryderon a'i hymddygiad yn gwella cyn iddo amharu arni yn hirach.

Hefyd, fydd yn anodd i Plentyn A fod yn unigolyn iach gyda diet o frechdanau Nutella yn unig- diet sydd ddim yn gytbwys, sy'n brin o lysiau, ffrwythau ac unrhyw beth iachus. Mae angen iddi ddechrau gwella ei pherthynas gyda bwyd fel plentyn, i sicrhau ei bod hi'n cael popeth yn ei diet sydd angen i fod yn unigolyn iachus wrth iddi dyfu.

Adolygiad Llenyddiaeth

Wrth edrych ar achos Plentyn A, mae'n amlwg bod ei hunan-les emosiynol yn wael. Defnyddiwyd dull ysgol gyfan gan yr athrawes wrth ddelio gyda Plentyn A, ac mae hwn wedi ei brofi'n effeithiol ar gyfer gwella ei hunan-les, drwy gyfuno'r 2 elfen bwysicaf yn ei bywyd- ysgol ac adref.

Dywed Katherine Weare yn ei llyfr 'Promoting Mental, Emotional and Social Health- Promoting a Whole School Approach' bod defnyddio dull ysgol gyfan

Has been shown to be much more likely to make long-term changes to pupils' attitudes and behaviour across a wide range of issues (2002 t.34)

gan fod cefnogaeth y rhieni a chefnogaeth yr athro a'r cyswllt a chyfathrebu yn gweithio'n effeithiol.

Cytunwyd Howard, Burton, Levermore a Barrell gyda'r cysyniad yma, yn dweud bod y bartneriaeth rhwng rhieni a'r ysgol yn cael ei amlinellu am y rôl hanfodol y mae e'n chwarae gan gefnogi dull ysgol gyfan tuag at iechyd meddwl a hunan-les. (Howard, C, Burton, M, Levermore, D & Barrell, R 2017)

Rhaid defnyddio'r dull yma drwy gydol amser Plentyn A yn yr ysgol, am fod Howard, Burton, Levermore a Barrell yn mynd ymlaen i ddweud os mae'r dull yn cael ei weithredi'n gyson, bydd yn helpu atal problemau iechyd meddwl a hunan-les rhag datblygu'n bellach mewn i oedolaeth. (2017)

Mae Katherine Weare yn cyfeirio tuag at Elias (1995) yn ei llyfr 'Promoting Mental, Emotional and Social Health- Promoting a Whole School Approach' (2002), sy'n dweud rhaid i iechyd meddwl, emosiynol a chymdeithasol fod â phroffil uchel, sydd ddim yn cael ei guddio rhwng materion eraill gwelir yn bwysicaf gan yr ysgol er mwyn iddynt ddatblygu a thyfu i fod yn oedolion.
Mae hwn yn cael ei adleisio gan The Children's Society yn 'The Good Child Report'-

A significant minority of children in the UK has low levels of well-being, which will have severe negative consequences for their childhood and life chances. (The Children's Society, t.14)

Hynny yw, bod iechyd meddwl gwael yn gallu amharu ar ddatblygiad plant, ac effeithio arnyn nhw a'r cyfleoedd fyddant yn cael fel oedolion, ac yn gallu tyfu fel y maen nhw'n tyfu.
I gyfeirio eto at 'Children's Mental Health and Emotional Well-Being in Primary Schools', mae 'na ffigwr yn dangos dylai bod dull ysgol gyfan yn chwarae rôl ganolig o ran iechyd meddwl a hunan-les plentyn, gyda 6 ffactor o gwmpas- llais y plentyn, ethos yr ysgol a'r amgylchedd a'r diwylliant, cynllunio'r cwricwlwm i hybu iechyd meddwl a hunan-les, datblygiad proffesiynol yr athro, a phartneriaeth effeithiol a chryf gyda rhieni a bywyd adref.

Mae'r 6 ffactor yn cyfrannu tuag at effeithiolrwydd y dull. (Howard, C, Burton, M, Levermore, D & Barrell, R 2017)

Seicolegydd arall oedd yn credu bod plant yn ffynnu drwy gael cymorth wrth rieni, athrawon a hefyd cyfoedion, oedd Vygotsky, a oedd yn perthyn i'r ysgol adeiladaeth o feddwl. Credau bod plant yn datblygu drwy wrando a gweld sut oedd oedolion gyda mwy o brofiad yn y byd yn ymddwyn.

Er bod Jerome Bruner yn cytuno gyda sawl cysyniad gan Vygotsky, ac wedi adeiladu ar sawl cysyniad, mae'n cytuno gyda'r gred bod plant yn fath o 'prentis' i oedolion sydd yn gwybod mwy.
Mae'r athrawes yn y dosbarth dim ond yn gallu gwneud rhyw faint i helpu Plentyn A o fewn yr ysgol, am fod angen iddi gymryd camau dros ei hun. Gelwir hwn yn Sgaffaldio, sef term a ddefnyddiwyd yn gyntaf gan Jerome Bruner yn yr 1960au, (McLeod, S. 2019) er bod ei wreiddiau yn dod o waith Vygotsky yn yr 1900au cynnar.

Dywed Joseph Foley yn ei erthygl i'r 'Oxford University Press' (1994) wrth aralleirio Applebee (1986), bod Sgaffaldio yn gweithio ar 5 criteria effeithiol, sef 'Student Ownership of the Learning Event', 'Appropriateness of the Instructional Task', 'A Structured Learning Environment', 'Shared Responsibility', a 'Transfer of Control'.

Cytunwyd y British Council gyda'r cysyniad o'r addysgwr yn trosglwyddo rheolaeth i'r dysgwr, am ei bod yn gwella'r cwricwlwm ac yn cymell y disgyblion, ac maent yn credu dylai plant cael y cyfle i gymryd rhan a helpu ffurfio sut maent yn cael ei addysgu (2019).

Mae Gabriel Peters yn sôn am anfanteision sgaffaldio yn ei flog ar 'The Classroom.com' (2019), yn dweud bod rhaid i athrawon ildio rheolaeth i adael i ddysgwyr dysgu ar gyflymder nhw eu hunain, yn lle dilyn yr athro, sydd cymryd llawer o amser ac efallai yn gorfod gwneud gwersi'n fyrrach i letya'r wers sgaffaldio. All hwn arwain tuag at blant rhwystredig yn y dosbarth, a phlant sydd wedi colli'r chwant i ddysgu.

Mae Peters hefyd yn sôn yn yr un blog bod angen i athrawon sydd am sgaffaldio plant yn y dosbarth gael hyfforddiant er mwyn sgaffaldio'n effeithiol.

This teaching strategy requires the teacher to allow the students to make some mistakes in order to learn. Teachers not trained specifically in this method are unlikely to intentionally allow pupils to make mistakes in the process of learning. (Peters, G. 2019)

Mae hwn hefyd yn anfantais o sgaffaldio am fod diffyg arian yn ysgolion, diffyg amser gan athrawon a hefyd diffyg adnoddau gallu bod yn rhwystredig wrth hyfforddi athrawon.

Un peth arall oedd yn cael effaith ar Plentyn A oedd wrth grio'r ffordd yr oedd hi, roedd hi'n gwthio plant eraill i ffwrdd, a doedd hi ddim yn cael ei chynnwys mewn gemau neu mewn grwpiau ffrindiau gyda'r plant eraill.

Gan bod y plant eraill i gyd wedi bod yn y meithrin gyda'i gilydd ac erbyn hyn yn wedi bondio, fel petai, roedd Plentyn A yn ffeindio'n anodd i ffeindio ei lle hi o fewn y dosbarth.

Mae cynhwysiant o fewn dosbarth yn gallu golygu lawer o bethau, a ddiffiniau Cathy Nutbrown (2006) hwn fel sicrhau bod pawb yn teimlo eu bod nhw'n 'perthyn'- plant a'u rhieni, staff, neu unrhyw un sydd wedi cysylltu a'r sefyllfa.

Mae hi'n symud ymlaen yn yr un erthygl i ddweud bod 'na ystyr ehangach iddo, ac maent yn golygu ymddygiadau, arferion a gwerthoedd sydd yn creu cymunedau yn y cyfnod sylfaen, lle mae pawb yn teimlo'n gyfforddus, bod nhw'n perthyn ac yn gallu cyfrannu.

Cytunwyd Howard, Burton, Levermore a Barrell â Nutbrown yn eu llyfr 'Children's Mental Health and Well Being in Primary Schools' (2017), ac maent yn ehangu wrth ddweud bod gan ysgolion gyfrifoldeb statudol i greu amgylchedd ddysgu sydd yn gynwhysol beth bynnau fu anghenion y plentyn, p'un a ydyn nhw'n cael ei ddiffinio gan anghenion corfforol, lliw eu croen neu ethnigrwydd, rhyw, neu gyda golwg ar anghenion emosiynol, cymdeithasol neu iechyd meddwl.

Adfyfyrio a Gwerthuso'r Camau Nesaf

Roedd yn ddefnyddiol i allu treialu dull fel y 'Leuven Scale' a oedd yn ffordd dda o asesu plentyn unigol, ond petai fy mod wedi dewis achosiad critigol yn cynnwys grŵp o blant, neu blentyn nad oedd gen i unrhyw bryderon ynglŷn â'i hunan-les, ni fyddai'r raddfa wedi bod yn fuddiol. Wrth ddefnyddio'r ffurflenni BWA, fe orfododd hwn fy nysgu i feddwl yn fwy trylwyr am yr achos ac am y camau nesaf a fyddai orau ar gyfer y plentyn. Mae hefyd wedi fy nysgu bod sefyllfaoedd sydd i weld yn arwynebol yn rhywbeth bach, gallu bod yn ddyfnach ac yn arwydd o faterion mwy sylfaenol, h.y. roedd y sefyllfa yma llawer yn ddyfnach 'na'r plentyn yn poeni am fynd i ysgol newydd.

Mae 'na lawer o fodelau adfyfyrio i gael, fel model 'Brookfield's Lenses'-

> *They are (1) our autobiographies as teachers and learners, (2) our students' eyes, (3) our colleagues' experiences, and (4) theoretical literature. (Brookfield, S.D. 1995 t.29)*

Gan ddefnyddio'r fodel yma, mae adfyfyrio yn fwy strwythurol ac mae'n offer defnyddiol ar gyfer sicrhau bod yr adfyfyrio yn gwella ar bob rhan o'n haddysgu. Mae defnyddio'r 4 lens yn ein galluogi ni i weld ein gwaith o safbwyntiau eraill, a hefyd yn ein galluogi i weld sut mae eraill yn dehongli ein gweithredoedd. Yn sicr, byddaf yn defnyddio'r dulliau yma a hefyd modelau adfyfyrio gwahanol i ddatblygu yn fy ngyrfa broffesiynol am fod adfyfyrio yn rhywbeth sydd yn anodd gwneud heb unrhyw gymorth, ac i aralleirio Stephen D. Brookfield, rydym yn ffeindio'n anodd sefyll tu allan i ni ein hun, ac mae angen y lensiau yma i adlewyrchu llun cywir o bwy ydyn ni a beth yr ydym yn gwneud. (Brookfield, S.D. 1995 t.28)

Teimlais gydag achos Plentyn A fod y crio, angen siarad â rhiant ac angen cysur drwy'r amser yn fwy 'na ond problem yn setlo yn y dosbarth, ac oedd yr athrawes ddosbarth yn cytuno.
Ar ôl gwneud yr ymchwil ac arsylwi ar Plentyn A, ac ar ôl i'r athrawes ei setlo'n hapus ac yn llwyddiannus yn y dosbarth, fe ddarganfyddom ni fod mam Plentyn A wedi bod yn ddioddefwr o drais mewn perthynas ychydig o flynyddoedd yn ôl, ac yn ôl y sôn, oedd hwn yn un o'r achosion gwaethaf gwelwyd erioed yn yr ardal. Am fod Plentyn A yn ddisgybl mewn ysgol wahanol pan wnaeth hwn ddigwydd, doedd yr ysgol ddim yn ymwybodol.
Ar ôl clywed hwn, roedd llawer o'i phroblemau a'i ymddygiad yn dechrau gwneud ychydig mwy o synnwyr.

Teimlaf fod yr athrawes wedi gwneud lawer o bethau da i ymgartrefi Plentyn A o fewn y dosbarth, fel torri i lawr y dydd a gadael iddi fynd adref i gael ei chinio, a phob diwrnod lleihau'r amser oedd hi adref, tan ei bod hi ddim angen mynd adref rhagor.
Wnaeth hi greu perthynas cryf gyda'r rhiant, a oedd yn bryderus wrth ddod a Plentyn A i'r ysgol, yn dweud wrth yr athrawes "she's feeling sad today", neu "she didn't want to come today", ac roedd yn amlwg fod pryderon y fam yn cael ei drosglwyddo i Plentyn A. Wrth ofyn i'r rhieni gael agwedd gwell am yr ysgol ac wrth ddod a Plentyn A i'r ysgol, wnaeth hwn eto drosglwyddo i'r plentyn ac oedd yn fan troi o fewn cael agwedd da ar ddechrau'r dydd.

A positive relationship with your child is more important to her school career than your constant presence in the classroom. Because young children identify strongly with you, your attitudes, values, and innermost feelings are contagious. They become embedded in your child's mind at the deepest levels. (Scholastic Parents Staff, 2019)

Wnaeth yr athrawes greu system bydi i Plentyn A, ac oedd hwn yn dda iddi i ddechrau, ond erbyn nawr mae hi'n dibynnu ar ei bydi pob dydd, a hyd y gwn i, dydy'r bydi ddim wedi colli ysgol eto, ond, beth os nad ydy'r bydi yn yr ysgol? Efallai wrth adfyfyrio, byddai'r athrawes yn gwneud grŵp bach iddi fod yn rhan ohoni, felly mae gyda hi fwy o gefnogaeth yn y dosbarth nag un plentyn yn unig.
Wrth fynd ymlaen, rhaid i'r athrawes gadw llygad ar Plentyn A, yn enwedig ar ol cael y wybodaeth ynglŷn â'r achos gyda'i mam. Fel y soniais, mae hi wedi setlo'n wych o fewn y dosbarth ac mae hi'n hapus, ond rhaid sicrhau ei bod hi'n cofio os oes 'na phroblem ei bod hi'n mynd i siarad ag athro (fel y mae hi nawr), ac wrth iddi symud drwy'r ysgol, bod yr athrawon eraill yn ymwybodol bod hi'n blentyn sydd yn bryderus, sydd angen cymorth i setlo, ond gyda'r cymorth iawn a'r defnydd o ddull ysgol gyfan, bydd hi'n iawn.

Casgliadau

Wrth ystyried yr achos critigol yma ar y cyfan, mae'n amlwg gweld bod y camau cywir wedi cael ei gymryd gan yr ysgol i sicrhau bod Plentyn A yn hapus ac wedi setlo'n dda, ac yn bwysicaf, bod ei phryderon ddim yn amharu ar ei addysg. Mae hi nawr ar ddiwedd hanner tymor yn dod i'r ysgol yn hapus a heb grio neu ofyn am Mam.
Mae wedi bod yn braf i mi fel arsylwr gweld datblygiad Plentyn A o wythnos 1 i fyny at nawr. Teimlaf fy mod wedi dysgu llawer wrth drafod ac adfyfyrio ar fy mhrofiadau yn arsylwi yn y dosbarth, ac yn edrych i mewn i'r achos critigol yma.

Teimlaf fod y Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth wedi cael ei gadw wrth ddelio gyda'r achos critigol, yn enwedig holl bwysigrwydd addysgeg, sydd wedi bod yng nghanol yr holl sefyllfa, gyda'r problemau yn cael ei ddatrys a Plentyn A nawr yn ei thaflu ei hun i mewn i waith yn y dosbarth a'i chyfraniad. Hefyd, y cydweithrediad sydd wedi bod yn hollbwysig yn ei datblygiad, ac arloesi a cheisio ymdrechi i ffeindio ffyrdd i newid agwedd y plentyn a'r ffordd yr oedd hi'n teimlo tuag at yr ysgol.

Gwelaf hefyd pwysigrwydd adfyfyrio wrth addysgu, ac wedi gweld hwn ar waith (gyda'r athrawes yn adfyfyrio ar y ffordd wnaeth hi ddelio gyda sefyllfa Plentyn A- beth fyddai hi'n newid, gwneud yr un peth), a chytunaf gyda'r Athro Mick Waters wrth sôn am Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth-

Our leadership needs to be part of our own professional learning, so that we don't keep revisiting the things we've done before, unless we've moved them on and developed our thinking… We want teachers thinking about their own job, developing their own work and becoming even better at what they do… Ensure that our professional understanding is extended. (Waters, M. 2019)

3734 o eiriau.

Llyfryddiaeth

BERA (2018a). *Ethical Guidelines for Educational Research*. Bera.ac.uk. https://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-2018-online#guidelines.

Brookfield, S. (1995). *Becoming a critically reflective teacher*. Jossey-Bass.

Cohen, L, Manion, L. a Morrison, K. (2011). *Research Methods in Education*. Efrog Newydd Routledge, t.292.

Cohen, L, Manion, L. a Morrison, K. (2011). *Research Methods in Education*. Efrog Newydd Routledge, t.293.

Cyngor Plymouth (2011). *Observing Learning, Playing and Interacting*. http://web.plymouth.gov.uk/documents-ldtoolkitleuven.pdf.

Elton, R. (1989). *The Elton Report- Discipline in Schools*.

Estyn (2011). *A report on Ysgol Gynradd Gymraeg Tan-y-lan*. Estyn. https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Ysgol%20Gynradd%20Gymraeg%20Tan-y-lan%20en.pdf.

Fletcher-Wood, H. (2016). *Ticked off.* Crown House Publishing.

Foley, J. (1994). Oxford University Press.

Kumar, R. (2011). *Research methodology : a step-by-step guide for beginners*. Los Angeles

Llywodraeth Cymru (2011). *Ysgol Gymraeg Tan-y-lan*. Gov.wales. http://mylocalschool.gov.wales/School/6702242?lang=en.

Llywodraeth Cymru (2015). *Dyfodol Llwyddiannus*. https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus-crynodeb-o-adroddiad-yr-athro-graham-donaldson.pdf graham donaldson 2015.

Llywodraeth Cymru (2019). *Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth*. https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/dull-cenedlaethol-ar-gyfer-dysgu-proffesiynol/safonau-proffesiynol-ar-gyfer-addysgu-ac-arweinyddiaeth-y-dull-cenedlaethol-ar-gyfer-dysgu-proffesiynol.

Mcleod, S. (2019). *Bruner - Learning Theory in Education*. https://www.simplypsychology.org/bruner.html#vygotsky.

Nutbrown, C. (2006). *Inclusion in Early Years Settings*. https://www.teachearlyyears.com/a-unique-child/view/inclusion-in-early-years-settings.

Peters, G. (2011). *Advantages & Disadvantages of Scaffolding in the Classroom*. https://www.theclassroom.com/advantages-disadvantages-scaffolding-classroom-8008434.html#targetText=Disadvantages,complete%20your%20entire%20scaffolding%20lesson.

Roffey, S. (2016). file:///Users/alyssawilliams/Downloads/Building_a_case_for_whole_chlld_whole_sc%20(1).pdf.

Scholastic Parents Staff (2019b). *Connecting Home and School*. https://www.scholastic.com/parents/school-success/school-involvement/connecting-home-and-school.html.

Study.com. (2019). *What is Qualitative Observation?* https://study.com/academy/lesson/what-is-qualitative-observation-definition-example.html#targetText=Qualitative%20observation%20deals%20with%20data,objects%20are%20all%20qualitative%20observations.

The British Council (2018b). *Student Voice in Vocational Education*. Britishcouncil.org. https://www.britishcouncil.org/education/skills-employability/what-we-do/vocational-education-exchange-online-magazine/july-2017/student-voice-vocational-education.

The Children's Society (2012). *The Good Child Report*.

Tripp, D. (2012a). *Critical incidents in teaching : developing professional judgement*. Llundain: Routledge, t.12.

Tripp, D. (2012b). *Critical incidents in teaching : developing professional judgement*. Llundain: Routledge, t.25.

Weare, K. (2004). *Promoting mental, emotional, and social health : a whole school approach*. Llundain: Routledge, t.34–35.

Atodiadau

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Addysg a'r Dyniaethau Education and Humanities

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA)
Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/*Date*: 26/09/19

Digwyddiad critigol (Ffocws)/*Critical incident (focus):* Plentyn A yn dod mewn

Profiad/ *Experience*	
Teimladau/ *Feelings* *Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?* *"What are your feelings regarding the experience?"*	Plentyn A yn methu cael ei chysuro am ei bod hi'n drist yn dod mewn i'r dosbarth, teimlo trueni drosti- mae hi yn ysgol newydd, pobl newydd. Plentyn A yn crio cymaint bod hi braidd yn gallu anadlu. Sioc oedd gweld plenty yn y cyflwr hwn, a *bod yr athrawes gorfod ffonio'r rhiant i gysuro hi. Teimlo trueni dros y plant eraill-* colli mas
Cofio a Deall/ *Remember and Understand* *"Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?"* *"Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"*	Dysgu bod hi ddim yn gallu bod gyda'r fam drwy'r fam drwy'r amser. Roedd y ferch amser. Roedd y ferch yn crio cymaint doedd hi ddim yn gallu unrhyw Gwaith ac oedd yn ymharu ar y plant eraill- swn sylw yr athrawes a.y.b. Athrawes yn ceisio *esbonio'r dasg ond oedd Plentyn A yn ceisio tynny sylw'r athrawes neu yn uchel* uwch ben hi'n siarad. Gan ei bod hi'n Newydd i'r ysgol roedd y planteraill gyd wedi dod i adnabod eu gilydd felly roedd angen dysgu am y plant eraill hefyd
Gwerthuso a dadansoddi/ *Evaluate and analyse* *"Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?"* *"What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"*	Roedd yr athro yn gofyn i blentyn arall (Plentyn B) fod yn ffrind da ac 'edrych ar ol' plentyn A. Roedd hwn i weld yn gysur iddi ac roedd hi'n edrych am Plentyn B yn aml pan oedd hi'n ffeindio ei hun ar ei phen ei hun. Doedd Plentyn A ddim yn fodlon bwyta yn y ffreutur gyda'r plant eraill felly am ychydig roedd hi'n bwyta adref/yn y dosbarth gyda athrawes nes ei bod hi'n digon gyfforddus i fwyta gyda'r plant eraill. Roedd Plentyn A angen cysur ac angen cael ei chofleidio yn aml, ond yn amlwg nid yw hwn yn bosib pob amser nac yn gynaliadwy pan mae'r athro yn ceisio gwneud y plant yn annibynnol. Felly, mae ganddi 'special cushion' mae hi'n eistedd arno sydd yn agos at yr athrawes- fel mae amser yn mynd ymlaen, efallai *mynd i ffwrdd a'r 'special cushion', ond cadw hi yn agos at yr athrawes fel ei bod hi* ddim yn teimlo'n unig neu yn bell. Mae'r plant mewn grwpiau gallu- cadw'r grwp gallu yr un peth efallai, am ei bod hi'n gwybod pwy sydd yn ei grwp hi a ble mae hi'n sefyll o fewn y grwp.
Casgliadau a chamau gweithredu/ *Conclusions and actions* *"Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?"* *"Beth y gellid ei wneud nesaf?"* *"What are your possible solutions to the issue identified?"* *"What could be done next?"*	Oes na agwedd negyddol yn dod o adref/rhieni tuag at ddod i'r ysgol? Dyfyniad gan yr athrawes 'prevention before cure'. O ran bwyta yn y ffreutur- ydy Plentyn A yn fodlon bwyta gyda Plentyn B yn y ffreutur? Neu yn y dosbarth, yn golygu bod hi ddim yn gallu mynd adref? Mae angen gwneud y dosbarth yn lle positif iddi a nid lle negyddol- efallai cysylltu'r dosbarth gyda adref- hi'n gallu mynd a Tegan o'r dosbarth adref a wedyn dod a f enol y bore wedyn/ar ol y penwythnos? Creu agwedd positif- dojos. Annog iddi ateb cwestiynau neu dyfalu ateb- gwneud iddi sylwi bod dim ots os mae'r ateb yn anghywir, mae pawb yn gwneud camgymeriadau. Mae Fisher yn dweud bod plant sy'n nerfus o flaen dosbarth ac wedi cynnig ateb n y gorffennol ac wedi adborth fel 'da iawn ond na'- gall hwn cael effaith ar ateb cwestiwn neu cynnig gyfraniad yn y dyfodol oherwydd braw o fod yn anghywir (Fisher, 2013). Mae angen annog hi i gymeryd rhan ac i gyfrannu a

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Addysg a'r Dyniaethau Education and Humanities

	gweithio/chwarae gyda cymaint a phlant sydd bosib i wneud iddi deimlo'n rhan o'r dosbarth ac yn rhan o'r gymuned bach sydd gyda nhw.
Y profiad newydd / *Transformed experience*	

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Addysg a'r Dyniaethau Education and Humanities

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA)
Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/*Date*:

Digwyddiad critigol (Ffocws)/*Critical incident (focus):* Bachgen A yn cael sticer wedi denu wrtho

Profiad/ *Experience*	
Teimladau/ *Feelings* *Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?* *"What are your feelings regarding the experience?"*	Mae staff yr ysgol yn tybio fod Bachgen A â ADY, ac mae yn ymddwyn mewn ffordd gwael ar adegau yn yr ysgol. Mae4 Bachgen A yn cicio plentyn arall allan ar y buarth, ac mae'r CD yn mynd a Bachgen A nol mewn i'r dosbarth, ac wrth iddi fynd, mae hi'n cymeryd y stricer 'Da lawn Ti' wnaeth e gael yn gynnarach yn y bore, wedyn tynnu ei eisgidiau i ffwrdd. Dwi'n teimlo dros Bachgen A am ei fod wedi gweithio'n galed ac yn dda drwy'r bore, dwi'n teimlo bod cymeryd y sticer i ffwrdd am rhywbeth sydd ddim yn berthnasol i'r sticer yn mynd i ddrysu'r plenty. Teimlaf bod yn bwysig iddo fe gadw'r sticer fel bod e ddim yn diflasu gyda gweithio'n galed yn y dosbarth.
Cofio a Deall/ *Remember and Understand* *"Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?"* *"Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"*	Deallaf fod yn bwysig i Bachgen A gweld beth sydd yn agwedd da a beth sydd yn agwedd ddrwg, felly dwi'n gweld pam wnaeth y CD tynnu'r sticer oddi arno- dim ond plant sy'n ymddwyn yn dda sy'n cael sticeri. Ond eto, digwyddiad gwahanol yw'r un yma felly ydy hwn yn dysgu Bachgen A bod y ffaith ei fod e wedi gweithio'n galed yn y dosbarth yn y bore yn llai pwysig nawr ei fod e wedi cicio plentyn arall? Ond efallai hefyd bydd y ffaith bod Bachgen A wedi cael y sticer wedi cymryd wrtho fe, yn dysgu iddo fe i beidio ymddwyn yn y ffordd wnaeth e ar y buarth. Dwi'n ansicr beth fyddai tynnu ei esgidiau oddi ar ei draed yn dysgu fe, yn enwedig pan mae e wedi gwahanu o'r plant eraill.
Gwerthuso a dadansoddi/ *Evaluate and analyse* *"Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?"* *"What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"*	Dylai Bachgen A chael ei denu oddi ar y buarth am ei fod yn ymddwyn mewn ffordd annerbyniol yn cicio plentyn arall. Dylai'r athrawes cael gair gyda Bachgen A i ddangos ac esbonio iddo fe bod ei agwedd yn annerbyniol a dydyn nhw ddim yn ymddwyn yn y ffordd yna yn yr ysgol.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions *"Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?"* *"Beth y gellid ei wneud nesaf?"* *"What are your possible solutions to the issue identified?"* *"What could be done next?"*	Siarad gyda'r plentyn i weld pam wnaeth e ymddwyn yn y ffordd yma- ffraeo gyda phlentyn arall efallai? Siarad gyda'r rhiant i adael iddyn nhw wybod bod y digwyddiad wedi digwydd a gofyn iddyn nhw siarad gyda Bachgen A. Pwyntiau Dojo/siarad gyda'r pennaeth (mae gan y pennaeth tystysgrifau am waith da neu agwedd da)- defnyddio hwn fel cymhelliad am agwedd da.
Y profiad newydd / *Transformed experience*	

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Addysg a'r Dyniaethau Education and Humanities

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA)
Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/*Date*:

Digwyddiad critigol (Ffocws)/*Critical incident (focus):* Bachgen A yn cael sticer wedi denu wrtho

Profiad/ *Experience*	
Teimladau/ *Feelings* *Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?* *"What are your feelings regarding the experience?"*	Mae staff yr ysgol yn tybio fod Bachgen A â ADY, ac mae yn ymddwyn mewn ffordd gwael ar adegau yn yr ysgol. Mae4 Bachgen A yn cicio plentyn arall allan ar y buarth, ac mae'r CD yn mynd a Bachgen A nol mewn i'r dosbarth, ac wrth iddi fynd, mae hi'n cymeryd y stricer 'Da lawn Ti' wnaeth e gael yn gynnarach yn y bore, wedyn tynnu ei eisgidiau i ffwrdd. Dwi'n teimlo dros Bachgen A am ei fod wedi gweithio'n galed ac yn dda drwy'r bore, dwi'n teimlo bod cymeryd y sticer i ffwrdd am rhywbeth sydd ddim yn berthnasol i'r sticer yn mynd i ddrysu'r plenty. Teimlaf bod yn bwysig iddo fe gadw'r sticer fel bod e ddim yn diflasu gyda gweithio'n galed yn y dosbarth.
Cofio a Deall/ *Remember and Understand* *"Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?"* *"Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"*	Deallaf fod yn bwysig i Bachgen A gweld beth sydd yn agwedd da a beth sydd yn agwedd ddrwg, felly dwi'n gweld pam wnaeth y CD tynnu'r sticer oddi arno- dim ond plant sy'n ymddwyn yn dda sy'n cael sticeri. Ond eto, digwyddiad gwahanol yw'r un yma felly ydy hwn yn dysgu Bachgen A bod y ffaith ei fod e wedi gweithio'n galed yn y dosbarth yn y bore yn llai pwysig nawr ei fod e wedi cicio plentyn arall? Ond efallai hefyd bydd y ffaith bod Bachgen A wedi cael y sticer wedi cymryd wrtho fe, yn dysgu iddo fe i beidio ymddwyn yn y ffordd wnaeth e ar y buarth. Dwi'n ansicr beth fyddai tynnu ei esgidiau oddi ar ei draed yn dysgu fe, yn enwedig pan mae e wedi gwahanu o'r plant eraill.
Gwerthuso a dadansoddi/ *Evaluate and analyse* *"Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?"* *"What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"*	Dylai Bachgen A chael ei denu oddi ar y buarth am ei fod yn ymddwyn mewn ffordd annerbyniol yn cicio plentyn arall. Dylai'r athrawes cael gair gyda Bachgen A i ddangos ac esbonio iddo fe bod ei agwedd yn annerbyniol a dydyn nhw ddim yn ymddwyn yn y ffordd yna yn yr ysgol.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions *"Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?"* *"Beth y gellid ei wneud nesaf?"* *"What are your possible solutions to the issue identified?"* *"What could be done next?"*	Siarad gyda'r plentyn i weld pam wnaeth e ymddwyn yn y ffordd yma- ffraeo gyda phlentyn arall efallai? Siarad gyda'r rhiant i adael iddyn nhw wybod bod y digwyddiad wedi digwydd a gofyn iddyn nhw siarad gyda Bachgen A. Pwyntiau Dojo/siarad gyda'r pennaeth (mae gan y pennaeth tystysgrifau am waith da neu agwedd da)- defnyddio hwn fel cymhelliad am agwedd da.
Y profiad newydd / *Transformed experience*	

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Addysg a'r Dyniaethau Education and Humanities

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA)
Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/*Date*: 02/10/19

Digwyddiad critigol (Ffocws)/*Critical incident (focus):* Plentyn T yn gofyn mynd i'r ty bach 3 gwaith mewn hanner awr

Profiad/ *Experience*	
Teimladau/ *Feelings* *Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?* *"What are your feelings regarding the experience?"*	Tro cyntaf i mi gwrdd a Plentyn T, mae e'n gofyn i mi os all fynd i'r ty bach, dwi'n dweud ie. O fewn 10 munud mae e'n gofyn i mi eto- wedi drysu, mae e newydd fod, mae e'n ateb 'wnes i ddim fynd yn iawn'. Ddim yn nabod y plenty felly dwi'n dweud ie eto am fy mod yn teimlo ansicrwydd dros y sefyllfa. O fewn 10-15 munud arall dwi'n clywed e'n gofyn i'r myfyriwr arall yn y dosbarth os all e fynd i'r ty bach eto, a mae hi'n dweud ie am ei bod hi ddim yn gwybod bod e wedi bod 2 waith yn barod. Ydy e wir angen ty bach 3 gwaith mewn hanner awr, neu ydy e ddim yn teimlo'n hapus/dost? Ddim yn deal y Gwaith? Rhywbeth yn ei wneud yn drist?
Cofio a Deall/ *Remember and Understand* *"Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?"* *"Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"*	Ymharu ar y dysgu am ei fod i ffwrdd o'r ardal dysgu/byrddau/y Gwaith. Ddim yn canolbwyntio ar y gwaith ac yn breuddwydio. Plant eraill- un angen mynd/pawb angen mynd felly mae e'n ymharu ar dysgu'r plant eraill. Cymeryd amser hir iddo fe cwblhau'r Gwaith, llawer yn hirach na'r plant eraill.
Gwerthuso a dadansoddi/ *Evaluate and analyse* *"Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?"* *"What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"*	Anodd dweud beth sydd angen cadw yr un fath am bod hwn yn broblem sydd angen newid/stopio. Angen ffeindio allan beth sy'n achosi Plentyn T i angen mynd i'r ty bach mora ml.
Casgliadau a chamau gweithredu/ *Conclusions and actions* *"Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?"* *"Beth y gellid ei wneud nesaf?"* *"What are your possible solutions to the issue identified?"* *"What could be done next?"*	Siarad a Plentyn T- ydy e'n deall y Gwaith? Oes rhywbeth yn ei boeni? Ydy e wir angen y ty bach? *Siarad gyda'r rhiant- ydy Plentyn T yn ffeindio Gwaith ysgol yn anodd?* Cefnogi Plentyn T a rhoi cymorth a'i ganmol ar Gwaith fel bod e'n teimlo bod e'n gwneud yn dda yn ei waith. Sicrhau bod y Gwaith yn cael ei esbonio'n glir a bod rhywun yn eistedd gyda fe yn y dosbarth tra bod e'n gwneud y Gwaith i'w gefnogi a rhoi cymorth fel bod angen.
Y profiad newydd / *Transformed experience*	

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016)

Dyddiad: 02/10/19
Manylion y wers: Mae'r plant wedi bod yn dysgu am y Beibl ac am stori Arch Noah yn benodol, ac am pwysigrwydd dweud diolch. Plant yn tynnu llun o'i hoff straeon o'r Beibl (Arch Noah) a ysgrifennu enw'r stori dan y llun. Wedyn ar ôl hwn rhaid iddyn nhw dynny llun o'i hoff llyfr nhw a ysgrifennu'r enw o dan
Diwylliant ar lawr dosbarth *(Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?)* Mae'r plant wedi bod yn lliwio drwy'r bore, felly maent wedi cael digon o gwneud erbyn hyn. Mae athrawes gyflenwi i fewn felly dydyn nhw ddim yn teimlo mor gyfforddus yn y dosbarth a gwneud y gwaith.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) Mae'r plant i gyd yn gwybod beth sydd yn mynd ymlaen, a beth sydd angen iddyn nhw wneud. Mae'r wers yn gofyn i'r plant feddwl am lyfrau er bod rhai yn dweud 'superheroes' neu 'does dim hoff lyfr gen i'
Cyfarwyddyd *(Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)* Mae nhw'n gwybod beth yw Arch Noah a bod yr anifeiliaid yn mynd i fewn i'r Arch fesul 2. Gwybod sut i dynnu llun Arch ag anfeiliaid.
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) Rhai plant ddim â hoff lyfr felly rhaid iddyn nhw feddwl yn galed am beth mae nhw'n mynd i dynnu llun. Plant i gyd yn gwybod y stori yn dda felly mae nhw'n gwybod beth mae nhw'n gwneud.
Asesu (Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?) *Tra bod nhw'n tynnu llun, mae'r athrawes yn gofyn iddyn nhw i ail adrodd y straeon,* neu yn gofyn cwestiynau am stori Noah, a rhaid iddyn nhw ateb y cwestiynau.
Manylebau / Achosion Beirniadol (Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?) Rhai o'r plant ddim yn gallu enwi hoff lyfr, ac yn dweud eu bod nhw ddim yn darllen adref. Iaith a lleferydd un plentyn yn enwedig yn wael. Yr un plentyn yn cael diffyg canolbwyntio ac yn esgus cysgu i beidio gwneud gwaith, gorfod annog i gario 'mlaen lliwio drwy'r amser

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016)

Dyddiad: 26/09/19
Manylion y wers: Mae'r plant yn dysgu stori Elen Benfelen a'r 3 arth. Rhaid iddyn nhw lliwio llun o'r 3 arth, Elen, 3 powlen, 3 cadair a 3 gwely. Wedyn torri allan y lliwiau (sgiliau torri) gludo y neu llyfrau mewn trefn maint, geirfa mawr, bach, pitw.
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) *Grwpiau gallu coch, melyn a glas. Glas- mae eu sgiliau lliwio ar y cyfan yn well, heblaw* am un neu ddau. Mae un merch o'r grwp melyn yn diflasu'n gyflym tra'n gwneud y dasg ac yn dweud 'I'm bored can I go and play now'. Coch yn sgriblo tra'n lliwio ac yn ffeindio'n anodd torri allan gyda siswrn.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) Oes, plant yn ymwybodol o'r stori felly maent yn gwybod beth yr ydyn yn gwneud. Mae'r 'mawr bach a pitw' yn adlewychru digwyddiadau'r stori.
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) *Mae nhw'n deall beth mae mawr pitw a bach yn meddwl, ac maent yn gallu rhoi nhw* mewn trefn, mae nhw'n gwybod sut i dorri allan ond maen nhw braidd yn ifanc i allu eu wneud yn dda, ond mae yn ymarfer da. Gwybod dylen nhw liwio tu fewn i'r llinellau ond mae'r grwpiau gallu uwch yn gallu eu wneud yn well.
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) Ydyn, mae nhw'n dilyn y wers yn dda, ac mae pob myfyriwr yn cael ei herio mewn rhyw ffordd neu'r llall- glas, torri allan, melyn, mawr pitw bach, coch, lliwio yn daclus
Asesu (Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?) *Gofyn iddyn nhw pa un sydd yn mawr, pa un sydd yn bitw a pa un sydd yn fach- plant* yn gorfod rhoi nhw yn y trefn cywir cyn iddyn nhw gludo i mewn i'r llyfrau.
Manylebau / Achosion Beirniadol (Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?)

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016)

Dyddiad: 26/09/19
Manylion y wers: Rhaid i'r plant yn y dosbarth derbyn tynnu lluniau o nhw eu hun yn yr ysgol, yn gwisgo eu gwisg ysgol, ac wedyn ysgrifennu 'Dyma Fi' ac wedyn eu enwau. Rhaid iddyn nhw gofio lliwio'r lluniau gan ddefnyddio'r lliwiwau cywir oedd yn gyd-fynd gyda'u gwisg ysgol.
Diwylliant ar lawr dosbarth *(Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?)* Mae yna 3 grwp gallu yn y dosbarth- glas, y mwy galluog, melyn, y rhai canol, a coch, y rhai oedd yn ffeindio'r gwaith yn fwy anodd. Roedd y grwp glas yn canolbwyntio'n dda ac yn gallu gwneud y dasg heb lawer o anogaeth, y melyn ar y cyfan yn dda, gyda rhai oedd yn cael eu sylw wedi eu denu yn rhwydd. Roedd mwyafrif o'r grwp coch gorfod cael tipyn o anogaeth i gael nhw i ganolbwyntio ac i gadw eu sylw ar y dasg a nid ar beth sydd yn mynd ymlaen yn y dosbarth,
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) Oes, mae'r tasg ffocws yn glir, ac mae'r plant sydd ddim ar dasg yn gwybod pa weithgareddau eraill maen nhw'n gallu gwneud, fel ymarfer ysgrifennu enw ar byrddau *gwyn, chwarae gyda 'play-dough' i greu llythrennau gwahanol, a hefyd chwarae ar y* carped. Os ydyn nhw am wneud rhywbeth arall, mae nhw'n gwybod bod rhaid iddyn nhw ofyn aelod o staff yn gyntaf.
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) Mae'r grwp glas yn gwybod sut i ysgrifennu eu enwau heb gymorth, on dos ydyn nhw'n ansicr, mae 'na lythrennau ar y wal i helpu nhw. Mae rhai o'r grwp melyn yn gallu gwneud yn annibynol, ond mae'r athrawes yn ysgrifennu'r llythrenau yn gyntaf ddangos esiampl da iddyn nhw am eu bod eu ysgrifen yn gwael. Ar gyfer y grwp coch, mae'r athrawes yn ysgrifennu'r llythrennau gyda uwcholeuwr, ac mae nhw'n ysgrifennu dros hwn am eu bod nhw ddim yn cofio sut i ffurfio llythrennau.
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) Mae pob disgybl yn gallu dilyn y wers, ac mae nhw'n gwybod beth i wneud ond does dim pob un yn gwybod sut i'w wneud yn dda. Mae'r grwp coch a rhai o'r melyn yn cael eu herio, ond mae'r grwp glas a rhai o'r grwp melyn yn gallu gwneud y das gyn rhwydd ac heb gymorth.
Asesu (Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?) Mae hi'n cofnodi ar rhestr wrth iddyn nhw wneud y dasg os ydyn nhw'n gallu gwneud yn annibynnol neu beidio, felly mae hi'n gwybod pa rhai sydd angen ymarfer a chymorth

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

wrth gwneud. Mae hi'n pwyntio tuag at llythrennau gwahanol i'r rhai sy'n ffeindio'n fwy anodd, ac yn gofyn iddyn nhw gopïo'r llythyren.

Manylebau / Achosion Beirniadol
(Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?)
Mae un plentyn yn cymryd achau i arlunio a lliwio, am ei bod yn breuddwydio ac yn siarad ag eraill oedd wedi gorffen. Doedd y plentyn ddim yn gallu ysgrifennu ei enw heb unrhyw chymorth hefyd, felly fydd rhaid iddo gael tipyn o gymorth ag ymarfer fel *mae amser yn mynd ymlaen- cymorth yn yr ysgol ac adref. Wrth siarad a'r plentyn* hefyd, roedd ei iaith yn wael ac oedd yn anodd ei ddeall.

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016)

Dyddiad: 26/09/19
Manylion y wers: Gwers ymarfer corff tu allan ar y buarth. Gemau goleuadau traffic, creu siapau gyda'r corff, balans ar un coes, a rhedeg
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) Gan bod y wers tu allan, mae'r plant yn canolbwyntio'n llai nag arfer ac yn chwarae gyda'i gilydd yn lle gwrando. Mae'r gwagle yn fwy felly rhaid i'r athrawes codi ei llais a *gweiddi'n fwy i'r plant cael clywed hi.*
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) Gwers ymarfer corff, ac mae nhw'n bod yn gorfforol, felly mae'r pwrpas yn glir- i symud y corff. Helpu gyda balans y plant drwy gwneud gweithgareddau balans.
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) Ydyn a nac ydyn- rhaid i'r athrawes weiddi ac mae rhai plant yn cael diffyg clywed, mae'n cymeryd hirach i gael nod y wers yn glir i'r plant am eu bod nhw ddim yn clywed. Mae nhw'n dueddol o fynd yn gyffrous ac yn sgrechian a ddim yn gwrando
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) Mae gan bod myfyriwr y gallu i ddilyn y wers yn iawn, ac mae nhw'n gallu dilyn y wers ar ol esboniad clir. Cael y plant at eu gilydd a esbonio'r nod iddyn nhw yn grwpiau yn llai
Asesu (Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?) Gofyn iddyn nhw adrodd yn ôl a dangos eu gwaith, dangos pa fath o sgiliau mae nhw wedi datblygu fel grwp. Gofyn i'r plant eraill ceisio beth mae'r grwpiau/plant eraill wedi gwneud i ddatblygu ar y sgiliau
Manylebau / Achosion Beirniadol (Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?) Plant i gyd yn mwynhau'r wers ac yn mwynhau symud a bod allan o'r dosbarth. Fformat y wers yn golygu bod dysgu yn anoddach ond mae'r plant angen dysgu ac angen plesio.